



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Adolygiad Safle Arddangos
WR & M Thomas & Son
Fferm Ty'r Eglwys
Llangennech
Llanelli
SA14 8YD

Date: Ebrill 2018
Paratowyd gan:
Will Jones Kite Consulting
Dunston Business Village
Dunston Staffordshire ST18
9AB

Ffôn: 07525 277877

E-bost:
will.jones@kiteconsulting.com



Cynnwys	
1.0 Crynodeb	3
1.1 <i>Crynodeb o'r busnes</i>	3
1.2 <i>Amcanion allweddol y prosiect</i>	3
1.3 <i>Llwyddiannau'r prosiect</i>	3
2 Adolygiad o'r Prosiect	5
2.1 <i>Ffrwythlondeb</i>	5
2.2 <i>Therapi Buchod Sych Dethol</i>	6
2.3 <i>Gweithdy Rheoli Mastitis</i>	6
3 Adolygiad Data Gwaelodlin	7
3.1 <i>Iechyd a Diogelwch</i>	7
3.2 <i>Ôl troed Carbon</i>	7
3.3 <i>Rheoli Maetholion</i>	7
3.4 <i>Cynllun Iechyd y Fuches</i>	7

1.0 Crynodeb

1.1 Crynodeb o'r busnes

- Mae Tyreglwys yn uned laeth gonfensiynol 350 erw, gyda'r mwyafrif yn berchen i'r bartneriaeth a 50 erw ar rent. Mae Geraint Thomas yn rhedeg busnes y fferm mewn partneriaeth â'i rieni.
- Mae'r fferm yn cadw buches laeth 160 o wartheg yn ogystal â lloi. Mae'r fuches laeth yn cael ei rhannu rhwng buches Holstein a buches Ayrshire, ac mae nifer o'r gwartheg Ayrshire yn cael eu dangos mewn sioeau lleol a chenedlaethol.

1.2 Amcanion allweddol y prosiect

Ffrwythlondeb

- Lleihau'r Bwlch Lloia o 410 diwrnod i 380 diwrnod
- Gwella'r gallu i ganfod gwartheg sy'n gofyn tarw
- Gwella cyfraddau cenhedlu

Therapi Buchod Sych Dethol

- Anelu at wella cynaliadwyedd cynhyrchiant llaeth a lleihau'r defnydd o wrthfotigau
- Gwella iechyd gwartheg
- Lleihau canfyddiad negyddol gan y cyhoedd yn ymwneud â'r defnydd o wrthfotigau mewn Amaeth

Gweithdai Rheoli Mastitis

- Yn dilyn gwaith a wnaed ar Safle Ffocws Cyswllt Ffermio yn Nant Goch yng nghanolbarth Cymru, cynhaliwyd gweithdy rheoli mastitis ar fferm Ty'r Eglwys.
- Yn ystod y digwyddiad, bu'r milfeddyg, James Breen, yn trafod dulliau ymarferol o leihau nifer yr achosion mastitis ar fferm.
- Y nod oedd cynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth ffermwyr yn yr ardal leol.
- Mae gwaith ymchwil gan Brifysgol Reading yn y 1960au wedi arwain at greu cynllun pum pwynt sydd wedi'i anelu at reoli lledaeniad mastitis rhwng gwartheg wrth odro.

CCTV yn y sied lloia

- Y nod oedd defnyddio technoleg i wella lles anifeiliaid a gwella ffordd o fyw'r ffermwr.

1.3 Llwyddiannau'r prosiect

Ffrwythlondeb

- Mae allanoli bridio'r gwartheg i gontractwr arbenigol wedi arwain at gynnydd o oddeutu 10% mewn cyfradd beichiogi.
- Mae cyfradd canfod gwartheg yn gofyn tarw wedi gwella gan fod contractwr arbenigol yn rhoi sialc ac yn arsylwi'r gwartheg 365 diwrnod y flwyddyn.
- Mae nifer y gwartheg cyflo wedi cynyddu o 68% ar adeg cyhoeddi'r adroddiad

- Amcangyfrifir y bydd y gwelliannau mewn ffrwythlondeb yn creu enillion net o £25,000 i'r busnes, a bydd cost ychwanegol y gwasanaeth ffrwythlondeb yn lleihau'r elw ychwanegol hwn i £20,200 - neu £125 y fuwch.

Therapi Buchod Sych Dethol

- Mae 80% o'r fuches wedi cael ei nodi'n gymwys i dderbyn triniaeth seliwr tethi'n unig
- Arbediad o £888 yn y flwyddyn gyntaf - 120 o wartheg * £7.40 (cost tiwbiau gwrthfotig i wartheg sych)
- Disgwylir i'r manteision fod llawer uwch yn y tymor hirach o ran lleihad mewn lefelau mastitis a lleihad mewn ymwrthedd gwrthfotig ar y fferm. Nid oes modd mantoli hynny ar hyn o bryd.

Gweithdai Rheoli Mastitis

- Wedi llwyddo i amlygu pwysigrwydd lleihau cyfraddau mastitis.
- Wedi arwain at ffermwyr unigol yn ceisio am gyllid i ddarparu cynllun rheoli mastitis 1:1.

CCTV yn y sied lloia

- Trwy osod system CCTV yn y sied lloia, roedd y ffermwr yn gallu monitro gwartheg yn lloia o bell. Roedd hyn yn golygu bod y ffermwr yn gallu gadael y fferm neu fonitro'r gwartheg o'r tŷ. Mae hyn yn enghraifft o ddefnyddio technoleg i wella effeithlonrwydd llafur a ffordd o fyw'r ffermwr/staff.
- Mae gwartheg angen ardal dawel heb straen er mwyn lleihau'r posibilrwydd o gael problemau wrth eni lloi. Bob tro mae'r ffermwr yn dod i weld y gwartheg, maen nhw mewn perygl o gynyddu lefelau straen. Mae'r perygl yn cael ei leihau trwy fonitro gwartheg sy'n lloi o bell.
- Mae'r siawns o sylwi ar anifail sy'n cael trafferth dod â llo yn cynyddu gyda monitrau o bell, a bydd hyn yn golygu bod modd ymyrryd yn fwy prydlon pan fo angen.

2 Adolygiad o'r Prosiect


2.1 Ffrwythlondeb

Mae'r busnes wedi bod yn cael canlyniadau ffrwythlondeb llai na'r disgwyl yn hanesyddol, ac roedd y prosiect yn anelu at fynd i'r afael â hynny. Cafodd Genus ABS eu contractio i weithredu system rheoli atgynhyrchiad (RMS). Roedd y gwartheg yn cael eu cerdded unwaith y dydd, a byddai sialc yn cael ei roi ar y gynffon. Byddai'r technegydd wedyn yn nodi unrhyw wartheg a oedd yn gofyn tarw ac yn rhoi tarw potel iddynt. Fel rhan o'r gwasanaeth, mae cofnodion yn cael eu cadw gan ddefnyddio meddalwedd rheoli buches DairyComp 305.

Mae'r tabl isod yn dangos ffiniau ffrwythlondeb yn ystod y 12 mis cyn cyflwyno, ynghyd â chanlyniadau'r 12 mis yn ymwneud ag RMS.

	Cyn RMS	Gyda RMS
% canfod buwch yn gofyn tarw	48	61
% cyflo ymhen 21 diwrnod	10	19
% Cyfradd cenhedlu	20	34
Nifer yn feichiog	47	86
Nifer y dyddiau hyd derbyn tarw am y tro cyntaf	70	68
Nifer y dyddiau hyd cenhedlu ar gyfartaledd	153	149
% yn gyflo ar 100 diwrnod	20	55
% yn gyflo ar 150 diwrnod	35	72
% heb fod yn gyflo ar 200 diwrnod	40	15

Mae cyfradd canfod gwartheg sy'n gofyn tarw wedi cynyddu'n sylweddol ar ôl cyflwyno RMS. Mae cyfuniad o gael contractwr arbenigol yn arsylwi gwartheg yn gofyn tarw er mwyn defnyddio sialc cynffon yn debygol o fod yn gyfrifol am y cynydd yma. Gyda chynnydd yn y gyfradd o ganfod gwartheg yn gofyn tarw, mae'r gyfradd cenhedlu'n aml i'w weld yn gostwng, gan fod gwartheg sy'n ymylu ar ofyn tarw yn derbyn tarw ac mae'r tebygolrwydd o wartheg yn cenhedlu'n lleihau. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, gwelwyd cynnydd yn y gyfradd cenhedlu. Mae cyfuniad o effaith cynnydd mewn canfod gwartheg yn gofyn tarw a chenhedliad yn golygu bod cyfradd cyflo 21 diwrnod bron iawn wedi dyblu o 10% i 19%. Mae'r graff isod yn dangos gwaith a wnaed ym Mhrifysgol Wisconsin yn yr UDA:



Mae'r tabl yn dangos gwerth economaidd ymylol cyfradd beichiogrwydd 21 diwrnod yn olynol ar raddfa o 1%, mae tueddiad tuag at leihad yn dod i'r amlwg, gan olygu bod enillion ariannol yn gwella ar lefelau is. Pe byddem yn adio'r enillion graddol o 10% hyd 19% yn fras ac yn trosi i GBP (0.71), mae effaith yr enillion yn £118 y fuwch neu oddeutu £19,000 ar y fuches 160 o wartheg yn flynyddol - byddai hyn yn gyfuniad o gynnydd mewn gwerthiant llaeth trwy leihad cyfartalog mewn dyddiau llaetha (DIM), cynnydd yng ngwerth y llo newydd anedig a lleihad mewn lefelau marwoldeb a difa.

2.2 Therapi Buchod Sych Dethol

Cyflwynwyd prosiect i edrych ar ddefnyddio therapi buchod sych dethol yn hytrach na thrin pob buwch. Mae'r diwydiant llaeth, fel nifer o sectorau ffermio eraill, dan bwysau cynyddol i leihau faint o wrthfotigau maen nhw'n eu defnyddio, yn bennaf o ganlyniad i bryderon o ymwrthedd o fewn meddygaeth ddynol. Cafodd therapi buchod sych gan ddefnyddio gwrthfotigau ei gyflwyno yn y 1970au, gan arwain at leihad pendant mewn nifer yr achosion mastitis a lefelau cyfrif celloedd somatig cyffredinol, ac o ganlyniad, mae wedi bod yn cael ei ddefnyddio ar ei ben ei hun bron ers hynny. Ffordd naturiol y fuwch o amddiffyn ei hun rhag i facteria sy'n achosi mastitis fynd i'r pwrs/cadair yw ffurfio plwg keratin naturiol yn y deth. Nid yw hyn yn gweithio bob amser am sawl rheswm. Mae'r bacteria wedyn yn cael eu niwtraleiddio yn y pwrs/cadair gan y gwrthfotigau.

Mae selwyr tethi wedi dod yn fwy poblogaidd, yn cael ei arwain yn ddiweddar gan nifer o adwerthwyr a phroseswyr. Mae'r cynnyrch yn cael ei ddefnyddio wrth sychu, gan weithredu fel plwg artiffisial trwy greu ffin ffisegol ym mhibell y deth. Mae gwaith ymchwil wedi dod i'r casgliad bod defnyddio ffiniau penodol yn gallu hwyluso'r broses o waredu'r defnydd o driniaeth wrthfotig o'r protocol sychu.

Arweiniodd y prosiect at 80% o'r gwartheg yn sychu heb ddefnyddio gwrthfotigau yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mae hyn yn amlwg yn gam gadarnhaol o ran iechyd anifeiliaid a chanfyddiad y cyhoedd.

Arweiniodd y prosiect hefyd at arbedion ariannol o £888 mewn 12 mis - nid oedd angen i 120 o wartheg dderbyn triniaeth wrthfotig ar gost o £7.40 fesul buwch. Bydd angen monitro manteision tymor hirach i iechyd y fuches ar sail barhaus, ond nid oedd unrhyw broblemau iechyd yn y lle cyntaf.

2.3 Gweithdy Rheoli Mastitis

Yn dilyn prosiect a gynhaliwyd yng Nghanolbarth Cymru yn Nant Goch, cyflwynodd Dr James Breen weithdy rheoli mastitis ar fferm Ty'r Eglwys. Roedd y trafodaethau'n cynnwys pob agwedd o fastitis a dulliau rheoli. Mae nifer wedi manteisio ar ymyrraeth mastitis technegol 1:1 yn dilyn y digwyddiad.

3 Adolygiad Data Gwaelodlin

3.1 Iechyd a Diogelwch

- ❑ Mae gan y fferm bolisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig mewn lle
- ❑ Mae offer amddiffyn PTO a ffactorau diogelu eraill mewn lle
- ❑ Mae'r holl ddeunyddiau peryglus yn cael eu cloi mewn man diogel

3.2 Ôl troed Carbon

- ❑ Roedd yr asesiad blaenorol yn dangos bod y carbon deuocsid cyfwerth a gynhyrchir fesul pob litr o laeth a werthwyd dros y flwyddyn yn 1,355g CO²e/l o laeth. Mae'r mesur hwn yn cyfrifo sawl gram o garbon deuocsid cyfwerth sydd mewn litr o laeth wedi'i addasu yn ôl egni (Energy Corrected Milk (ECM)). O'i gymharu, roedd y cyfartaledd ar gyfer systemau tebyg dros yr un cyfnod o amser yn 1,286g CO²e/l, gan olygu bod cost carbon uwch fesul litr ar y fenter hon na'r cyfartaledd.
- ❑ Bydd cynnydd mewn cynhyrchiant a gwelliannau ffrwythlondeb yn cael effaith gadarnhaol ar faint o garbon sy'n cael ei gynhyrchu - trwy ei leihau. Byddai ail asesu'r ôl troed carbon yn ymarfer gwerth chweil dros y flwyddyn sydd i ddod.

3.3 Rheoli Maetholion

- ❑ Cafodd y polisi gwrtaithe ei asesu fel rhan o brosiect tir glas a gynhaliwyd - roedd hyn yn gwneud y defnydd gorau o'r polisi gwrtaithe yn unol â gwasgaru gwrtaithe organig.
- ❑ Nodwyd fod cynyddu allbwn o borthiant a dyfir gartref yn bwysig iawn. Mae cynnydd diweddar mewn marchnadoedd bwyd yn amlygu'r anghysondeb yn y farchnad - bydd cynyddu porthiant a dyfir gartref trwy wella'r defnydd o faetholion yn cynyddu gwytnwch y busnes.

3.4 Cynllun Iechyd y Fuches

- ❑ Mae'r busnes wedi rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd lleihau'r defnydd o wrthfotigau - fel sy'n cael ei amlygu trwy'r prosiect buchod sych dethol.
- ❑ Mae cynllun iechyd y fuches yn gyfredol yn dilyn cyfarfod gyda milfeddyg y fferm.